GWASG PRIFYSGOL CYMRU
UNIVERSITY OF WALES PRESS

**Mynediad Agored (MA) – Llyfrau**

## Polisïau Cyfredol Pwysig ynghylch MA:

Os cyllidir eich ymchwil gan **UKRI**, cyfeiriwch at dudalennau MA UKRI am fanylion eu polisi, canllawiau cydymffurfio a sut i ymgeisio am gyllid.

Mae'r polisi ar gyfer y **Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2029** wedi cael ei gyhoeddi. Ni fydd mandad ar gyfer mynediad agored ffurf hir, tra bydd gofyniad am drwyddedau penodol a chyfnodau embargo ar gyfer erthyglau mewn cyfnodolion. Crynhoir y gofynion yma: (dolen)

Ar gyfer llyfrau **Astudiaethau Cymru** a gyhoeddwyd gyda chefnogaeth cronfa gyhoeddiadau Medr, cais Medr yw bod mynediad agored yn cael ei annog yn 'gryf' wrth gyhoeddi ymchwil a ariennir yn gyhoeddus. Maent yn annog y gymuned academaidd i symud i'r cyfeiriad hwn gan eu bod yn rhagweld y bydd y gofyniad yn berthnasol i gyhoeddiadau ffurf hir ar gyfer y REF nesaf yn dilyn REF 2029.

Mae cronfa Medr yn cefnogi monograffau ysgolheigaidd a chasgliadau golygedig ym maes Astudiaethau Cymru, lle mae gan yr awdur gysylltiad cryf â Sefydliad Addysg Uwch Cymreig. Am fwy o wybodaeth am y gronfa, cysylltwch â Llion Wigley (llion.wigley@press.wales.ac.uk).

## CWESTIYNAU CYFFREDIN

### MA a LLYFRAU

***Pa wybodaeth sydd angen i awduron ei chyflenwi i'r Golygydd Comisiynu?***

Os yw'n ofynnol i'ch llyfr fod yn MA, gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys y wybodaeth hon yn eich Holiadur Cynnig wrth gyflwyno cynnig llyfr. Os nad ydych chi'n gwybod ar hyn o bryd, rhowch wybod i'r Golygydd Comisiynu cyn gynted â phosibl.

Os nad ydych yn siŵr a yw MA yn ofynnol, gwiriwch gyda'ch prifysgol. Os cafodd yr ymchwil sy'n sail i'ch llyfr ei gyllido, holwch y cyllidwr, a allai fod â mandad MA. Mewn achosion o'r fath, anfonwch fanylion y mandad at y Golygydd Comisiynu.

***Ydy llyfrau MA yn wahanol i'r ffordd y caiff llyfrau print ac eLyfrau eu trin?***
Nac ydynt, caiff llyfrau MA eu trin yn union yr un fath â llyfrau print ac eLyfrau, gydag adolygiad cymar yn ofyniad sylfaenol. Mae gofyn i GPC gael argymhelliad cadarnhaol, diamwys gan adolygwyr cymheiriaid cyn cyhoeddi llyfr. Hyd yn oed os oes cyllid wedi'i sicrhau, ni fyddwn yn cyhoeddi llyfr os nad yw wedi llwyddo yn yr adolygiad cymar.

Mae pob llyfr MA yn mynd drwy broses golygu copi lawn, fe'i cysodir a'i gynhyrchu i safonau golygyddol a chynhyrchu uchel GPC.

Caiff pob llyfr MA ei farchnata a'i ddosbarthu o fewn rhwydweithiau academaidd GPC.

***A fyddwch chi'n cyhoeddi llyfr MA mewn print hefyd?***
Rydym ni'n penderfynu ar bob achos yn unigol, ond yn gyffredinol y nod yw ei gyhoeddi mewn print ac ar gyfer ei e-werthu, yn ogystal â'r fersiwn MA.

***Ydy awduron yn derbyn breindaliadau ar lyfrau MA?***
Bydd awduron yn derbyn breindaliadau ar brint ac e-werthiant, ond nid ar y fersiwn MA.

***Pam fod angen cyllid i dalu costau cyhoeddi llyfr neu bennod MA?***
Yn nodweddiadol telir costau cyhoeddi MA gan Dâl Prosesu Llyfr neu Dâl Prosesu Pennod, a modelau busnes ar wahân i Dâl Prosesu Llyfr megis OpenUP. Mae angen cyllid am nad oes incwm i dalu costau cyhoeddi, gan fod MA am ddim i'r darllenydd yn y man lle mae'n ei gyrchu. Mae costau cyhoeddi llyfr MA yn gyffredinol yr un fath â chyhoeddi llyfr i'w werthu. Os byddwn ni hefyd yn cyhoeddi'r llyfr i'w werthu, bydd incwm i'w roi yn erbyn costau cynhyrchu lawer yn is gan fod fersiwn 'am ddim' ar gael.

***Pa fathau o MA sydd i'w cael?***
**MA 'Aur':** mae hwn yn gyhoeddiad MA o'r Fersiwn ar Gofnod, sef fersiwn sydd wedi'i olygu a'i gysodi gan GPC.

**MA 'Gwyrdd':** dyma lle mae Llawysgrif Awdur a Dderbyniwyd (y fersiwn sydd wedi cael adolygiad cymar, ond heb olygu copi na chysodi) yn cael ei adneuo mewn ystorfa sefydliadol neu bwnc.

***Pa gostau sy'n berthnasol i MA Aur?***

**Cost Prosesu Llyfr a Chost Prosesu Pennod ar gyfer Monograffau a Chasgliadau Golygedig:**

**Cost Prosesu Llyfr:** Gan fod monograffau a chasgliadau golygedig yn amrywio o ran nifer geiriau a maint, cysylltwch â'ch Golygydd Comisiynu am gyfrifiad penodol ar gyfer eich llyfr. Yn gyffredinol, byddai angen cyllid o £10,000 ar lyfr sydd â 100,000 o eiriau heb ddelweddau lliw.

*Delweddau*: Ar gyfer 8 tudalen o ddelweddau lliw, ychwanegwch £340.

*Mynegai*: Fel arfer bydd Awduron a Golygyddion yn paratoi mynegai'r llyfr gan mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i wneud hynny, ond os ydych chi'n dymuno i GPC drefnu paratoi'r mynegai, ychwanegwch £670.

Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar brisio cyfredol, a gallent amrywio yn y dyfodol.

**Cost Prosesu Pennod:** Gellir gwneud penodau unigol mewn casgliadau golygedig yn Fynediad Agored. Os byddwch angen i'ch pennod fod yn MA, cysylltwch â'ch Golygydd Comisiynu. Byddwn ni'n cyfrifo cost prosesu'r bennod ar sail cost eich pennod mewn perthynas â chyfanswm costau cynhyrchu'r llyfr.

***Beth yw ein polisi MA Gwyrdd/hunan archifo?***

Ar wahân i achosion lle ceir mandad gan y cyllidwr, fel yn achos UKRI, sy'n mynnu cyfnod embargo byrrach, mae polisi GPC fel a ganlyn:

*Monograffau:* Mae GPC yn caniatáu adneuo'r llawysgrif awdur a dderbyniwyd mewn ystorfa sefydliadol neu ystorfa bwnc. Y cyfnod embargo yw 36 mis ar ôl cyhoeddi'r argraffiad print. Ni chaniateir adneuo'r argraffiad a gyhoeddwyd

(Fersiwn ar Gofnod). Dylai'r crynodeb egluro nad y fersiwn a gyhoeddwyd yw'r llawysgrif awdur a dderbyniwyd, a chynnwys dolen at y fersiwn a gyhoeddwyd gan GPC.

*Casgliadau Golygedig:* caiff awduron adneuo eu pennod eu hunain mewn ystorfa sefydliadol neu ystorfa bwnc. Y cyfnod embargo yw 36 mis ar ôl cyhoeddi'r argraffiad print. Ni chaniateir adneuo'r argraffiad a gyhoeddwyd (Fersiwn ar Gofnod). Dylai'r crynodeb egluro nad y fersiwn a gyhoeddwyd yw'r llawysgrif awdur a dderbyniwyd, a chynnwys dolen at y fersiwn a gyhoeddwyd gan GPC. Ni chaniateir adneuo'r llawysgrif awdur a dderbyniwyd yn gyfan.

***Pa drwydded Creative Commons ydym ni'n ei hargymell?***

Mae GPC yn defnyddio cyfundrefn o drwyddedau a grëwyd gan Creative Commons. Mae'r trwyddedau hyn yn dweud wrth ddarllenwyr beth y gallant ac na allant ei wneud gyda chynnwys MA.

Rydym ni'n argymell CC BY NC ND (dolen).

Ystyr CC BY NC ND yw:

- CC: caiff unrhyw un rannu neu lawrlwytho eich gwaith
- BY: rhaid i chi gael credyd fel awdur bob amser
- NC: rhaid peidio â defnyddio na gwerthu'r fersiwn MA yn fasnachol
- ND: Ni chaniateir i neb newid eich gwaith

Fodd bynnag, os yw mandad cyllidwr/gofyniad arall yn pennu trwydded CC BY gwahanol, cysylltwch â'ch Golygydd Comisiynu am gyngor.

***A all fy llyfr MA gynnwys deunydd trydydd parti?***

Byddem yn cynghori bod unrhyw ddelweddau a ddefnyddir yn y llyfr ar gael dan drwydded CC BY.

Os ydych chi'n bwriadu defnyddio delweddau â hawlfraint nad ydynt ar gael dan drwydded CC BY, rhaid cynnwys capsiwn gyda'r cyfryw ddelweddau sy'n nodi'n glir: manylion deiliad yr hawlfraint, ac na cheir ailddefnyddio'r ddelwedd dan drwydded CC BY y llyfr. Cyfrifoldeb yr awdur/golygydd yw ceisio caniatâd i gynnwys deunyddiau trydydd parti os ydynt dan hawlfraint.

Fe’ch cynghorir i gysylltu â’ch Golygydd Comisiynu am ragor o wybodaeth.

***A all fy llyfr ddod yn MA ar ôl cyhoeddi?***

Os ydych am gael MA ar ôl contractio’r llyfr, neu ar ôl cyhoeddi, hysbyswch eich Golygydd Comisiynu a byddwn yn cyfrifo cost gwneud eich llyfr yn MA yn adolygol.